# Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Date of publication: Dydd Llun, 20 Mai 2019

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r : 2019/13 - Gwastraff ac Ailgylchu**

**Gofynnodd y Cynghorydd Fouweather:**

Mae'r wybodaeth ddiweddar a roddoch i mi ynglŷn â chyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig yn dangos gostyngiad sylweddol yn nifer yr hysbysiadau a gyflwynwyd.
A allwch egluro i mi pam mae hyn wedi digwydd a'r gyllideb ar gyfer glanhau wedi cynyddu oherwydd swm y sbwriel a ollyngir.

| | | |
|---|---|---|
| 2012/2013 | 162 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | Dim dirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |
| 2013/2014 | 588 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | 91 o ddirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |
| 2014/2015 | 1642 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | 84 o ddirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |
| 2015/2016 | 1766 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | 146 o ddirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |
| 2016 /2017 | 1774 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | 187 o ddirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |
| 2017/2018 | 724 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | 82 o ddirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |
| 2018/2019 | 288 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi | 3 o ddirwyon wedi'u cyhoeddi gan y llys |

| | |
|---|---|
| 2012/2013 | 1,412,033 |
| 2013/2014 | 1,065,402 |
| 2014/2015 | 1,273,128 |
| 2015/2016 | 1,729,944 |
| 2016 /2017 | 1,583,674 |
| 2017/2018 | 1,332,847 |
| 2018/2019 | 1,663,976 |

Mae arweinydd y cyngor wedi honni y bu gostyngiad gan 30% yn swm y sbwriel ers i'r biniau llai newydd gael eu cyflwyno, mae hi hefyd wedi honni bod casgliadau ailgylchu a gwastraff bwyd wedi gwella gan 25%. Felly fyddech chi gystal ag ateb y canlynol. Gan fod yr arweinydd wedi gwneud y datganiad cyhoeddus hwn bydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r cwestiynau isod ar gael.

1 Oes unrhyw gynnydd wedi bod yn faint caiff y safle tirlenwi ei ddefnyddio ers cyflwyno'r biniau llai?

2 Oes unrhyw gynnydd wedi bod yng nghostau rhedeg y safle tirlenwi ers cyflwyno'r biniau llai?

3 Ydy’r Cyngor wedi mynd i unrhyw gostau oherwydd y tagfeydd traffig ar yr SDR a achosir gan bobl yn ciwio i fynd i mewn i'r safle tirlenwi?

4 Oes unrhyw gynnydd wedi bod yn swm y gwastraff sydd yn y safle tirlenwi ers cyflwyno'r biniau llai?

5 Mae llawer o drigolion yn cwyno am oriau agor y safle tirlenwi. Oes unrhyw gynlluniau i gynyddu argaeledd y safle i breswylwyr?

**Atebodd y Cynghorydd Jeavons:**

Yn hanesyddol, dim ond Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol sydd wedi rhoi Hysbysiadau Cosb Benodedig, felly nid yw nifer yr hysbysiadau a roddwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gyllideb lanhau. Ni oes cynnydd wedi bod o ran yr adnoddau a ddefnyddir. Mae'r unig gynnydd mewn cyllidebau yn ystod y 4 blynedd diwethaf yn ymwneud â chynnydd mewn dyfarniadau cyflog cenedlaethol a chynnwys costau rheoli gweithredol fel rhan o ymarfer i ad-drefnu’r gyllideb.

Ar gyfer mis Ebrill 2018, gwaredwyd 9871 o dunelli yn y safle tirlenwi, ond ar gyfer mis Ebrill 2019, gwaredwyd 9480 o dunelli yn y safle tirlenwi. Fodd bynnag, mae'r safle tirlenwi yn Docks Way yn gyfleuster masnachol ac nid yw ar agor i'r cyhoedd. Mae gwastraff gweddilliol Casnewydd (biniau olwynion) yn mynd i Barc Trident yng Nghaerdydd i'w waredu. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw newidiadau yn faint y caiff y safle tirlenwi ei ddefnyddio na swm y gwastraff sydd ynddo yn gysylltiedig â gwastraff gweddillol (biniau olwynion) Casnewydd.

Ni aethpwyd i unrhyw gostau ychwanegol.

Nid yw'r safle tirlenwi yn agored i drigolion, dim ond y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC), sydd ar agor 348 diwrnod y flwyddyn o 7:30 tan 4:30 (9:00 tan 4:30 ar benwythnosau).

Rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth adolygu'r oriau agor cyn cyflawni cam nesaf strategaeth wastraff y Cyngor, sef datblygu ail safle GAGC erbyn 2022.